**ADRODDIAD AR BENDERFYNIAD PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**

**MEWN PERTHYNAS Â METHIANT I DDILYN Y CÔD YMDDYGIAD CYN-GYNGHORYDD TREF GARETH BAINES**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Dyma benderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn perthynas â chŵyn am dorri'r Côd Ymddygiad gan y Cyn Gynghorydd Gareth Baines o Gyngor Tref y Waun.

1.2 Mae'r penderfyniad yn dilyn derbyn adroddiad a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) o dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 dyddiedig 13 Mehefin 2024 pan gyfeiriwyd y mater at Bwyllgor Safonau'r Cyngor i'w ystyried.

1.3 Penderfynodd y Pwyllgor Safonau ar ei ddyfarniad ar ffurf gwrandawiad llafar ar 13 Tachwedd 2024 a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref Wrecsam. Cynrychiolwyd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Hysbyswyd y cyn Gynghorydd Baines o ddyddiad y gwrandawiad ond ni fynychodd.

## 2. HONIADAU

2.1 Yr honiad yn adroddiad yr Ombwdsmon oedd bod y cyn Gynghorydd Baines wedi torri'r Côd Ymddygiad mewn sylwadau a wnaed i berson a oedd wedi tendro am waith gyda Chyngor Tref y Waun. Honnwyd bod y cyn Gynghorydd Baines wedi ymddwyn mewn modd amhriodol a derbyniwyd cwynion am ei ymddygiad.

2.2 Ym mis Rhagfyr 2021, roedd y Cyngor wedi gofyn am wahoddiadau i dendro ar gyfer creu gwefan newydd. Cyflwynodd gŵr yr achwynydd dendr ar gyfer y gwaith. Sefydlodd y Cyngor 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen' i ystyried yr amcangyfrifon a gafodd ar gyfer y gwaith arfaethedig ar ei wefan. Roedd y cyn Gynghorydd Baines yn aelod o'r grŵp. Derbyniodd y grŵp y gwaith papur perthnasol a chyfarfu i drafod yr amcangyfrifon ar 13 Rhagfyr 2021. Gwnaeth y grŵp argymhelliad i'r Cyngor benodi cwmni i wneud y gwaith ar ei wefan. Ni fynychodd y cyn Gynghorydd Baines y cyfarfod ac ni chwaraeodd unrhyw ran yn y penderfyniad ynghylch pa gwmni y dylid dyfarnu'r contract am waith iddo.

2.3 Mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 15 Rhagfyr 2021, penderfynodd y Cyngor pa gwmni y dylid dyfarnu'r contract am waith iddo. Ni fynychodd y cyn Gynghorydd Baines y cyfarfod.

2.4 Ar 20 Rhagfyr 2021 roedd y cyn Gynghorydd Baines mewn cysylltiad â'r achwynydd ynghylch postiad Facebook a wnaed gan y cyn Gynghorydd

Baines yn ymwneud â Rheoliadau Coronafeirws Llywodraeth Cymru. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r Rheoliadau a digwyddiadau cymunedol arfaethedig y Cyngor, a oedd yn cynnwys trafod cymorth y cyn Gynghorydd Baines gyda'r digwyddiadau cymunedol.

2.5 Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, cyfnewidiodd y cyn Gynghorydd Baines a gŵr yr achwynydd negeseuon yn ymwneud â phost y Rheoliadau. Yn dilyn y negeseuon, derbyniodd yr achwynydd negeseuon pellach gan y cyn Gynghorydd Baines a soniodd am dendro gŵr yr achwynydd am waith i'r Cyngor a bod angen i'r cyn Gynghorydd Baines hysbysu Clerc y Cyngor o gynnwys y negeseuon.

2.6 Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod ymddygiad y cyn-Gynghorydd Baines yn golygu y gallai fod yn gyfystyr â thorri'r paragraff canlynol o'r Côd Ymddygiad:

**7 Rhaid i chi beidio**
**(a) yn eich rôl swyddogol neu fel arall, defnyddio neu geisio defnyddio eich swydd yn amhriodol i roi neu sicrhau mantais i chi'ch hun, neu i unrhyw berson arall, neu greu neu osgoi anfantais i chi'ch hun, neu unrhyw berson arall.**

## 3. YSTYRIAETH RHAGARWEINIOL GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

3.1 Ar 13 Awst 2024 bu'r Pwyllgor Safonau yn ystyried adroddiad yr Ombwdsmon a daeth i'r casgliad y dylid rhoi'r cyfle i'r cyn Gynghorydd Baines (a oedd yn dal yn Gynghorydd ar yr adeg y cynhaliwyd yr ystyriaeth ragarweiniol) gyflwyno sylwadau ar ganfyddiadau'r adroddiad. ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu â chydymffurfio â'r Côd Ymddygiad.

## 4. PRIF FFEITHIAU'R ACHOS Y CYTUNWYD NEU HEB EI GYTUNWYD

4.1 Er gwaethaf derbyn hysbysiad o ddyddiad y gwrandawiad a'i gyfle i fod yn bresennol naill ai o bell neu'n bersonol, dewisodd y cyn Gynghorydd Baines beidio â mynychu'r gwrandawiad.

## 5. GWRANDAWIAD

5.1 Ar 13 Tachwedd 2024, ystyriodd y Pwyllgor Safonau adroddiad yr Ombwdsmon a chlywodd sylwadau gan yr Ombwdsmon. Galwodd y Pwyllgor Safonau yr achwynydd fel tyst hefyd.

5.3 Gwnaeth yr Ombwdsmon sylwadau ar y ffaith a oedd yn destun dadl:

(i) A ddefnyddiodd y cyn Gynghorydd Baines ei gyfrif Zoom yng nghyfarfodydd y Cyngor ar 29 Tachwedd 2023 a 16 Mai 2024?

5.4 Ynghlwm â'r ffaith testun dadl, cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol:
(i) yn ôl pwysau tebygolrwydd, defnyddiodd y cyn Gynghorydd Baines ei gyfrif Zoom yng nghyfarfodydd y Cyngor ar 29 Tachwedd 2023 a 16 Mai 2024.

5.5 Canfu'r Pwyllgor Safonau fod y cyn Gynghorydd Baines wedi torri'r Côd Ymddygiad mewn perthynas â pharagraff 7(a).

**6. COSB**

6.1 Yn y Gwrandawiad ar 13 Tachwedd 2024 penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol osod yr unig sancsiwn oedd ar gael iddo o ystyried ymddiswyddiad y cyn Gynghorydd Baines o'r Cyngor:

- Bod y cyn Gynghorydd Baines yn cael ei geryddu.

6.2 Wrth ddod i'w benderfyniad ynghylch y sancsiwn priodol, rhoddodd y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i Ganllawiau Sancsiynau Panel Dyfarnu Cymru. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y sancsiwn er budd y cyhoedd a mynegodd ei rwystredigaeth na allai osod cosb fwy llym o ystyried bod y cyn Gynghorydd bellach wedi ymddiswyddo.

**7. APÊL**

7.1 Rhoddwyd gwybod i'r cyn Gynghorydd Baines am ei hawl i gael caniatâd i apelio i Banel Dyfarnu Cymru o dan Reoliad 10(8) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau (Cymru)) 2001 ond ni dderbyniodd y Pwyllgor hysbysiad o gyflwyniad apêl.

19 Rhagfyr 2024